



CONTACT

Y Cylchgrawn Cymunedol ar gyfer Bwrdeistref Siroi Merthyr Tudful

M&S Merthyr Tudful

Yn Dod Â 120 O Swyddi Newydd 16

**Enw Newydd i
Brosiect Glanrafon...
Golwg Yr Afon** 6

05

**Gweinidog yn
agor Gorsaf
Trosglwyddo
Gwastraff
Newydd**



Croeso i rifyn 39 Cyswllt...



Croeso i rifyn 39 o gylchgrawn cymunedol Contact. Byddwch yn gweld trwy'r rhifyn bod llawer o bethau cyffrous yn digwydd yn ein Bwrdeistref Sirol.

Yn fuan wedi dechrau yn fy rôl fel Arweinydd y Cyngor yn 2012 roedd hi'n amlwg bod y cyfle i gael M&S i ddod i Ferthyr Tudful yn diflannu a bu'n rhaid i ni weithio'n hynod o galed i hwyluso dyfodiad M&S i Ferthyr Tudful ac rydw i wedi bod yn gweithio'n agos â Huw Lewis AC a Carl Sargeant AC, Gweinidog Prifffyrdd ar y pryd i oresgyn yr anawsterau o ran cynllun y ffordd. Fodd bynnag mae'n bleser gweld crystal mae ehangu Parc Manwerthu Cyfarthfa yn datblygu.

Mae hyn yn gyfle gwyh i'r ardal ac i gyflogaeth leol gyda 120 o swyddi ychwanegol. Bu Tim Cyflogadwydd y Cyngor a rhanddeiliaid eraill yn gweithio'n agos iawn â M&S dros y misoedd diwethaf i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl ddi-waith er mwyn eu helpu i gael swyddi yn siop newydd. Mae hyn yn newyddion gwyh i Ferthyr Tudful ac edrychwn ymlaen at fis Hydref pan fydd M&S yn agor ei drysau.

Ym mis Medi es i agoriad swyddogol yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd ym Mhentrebach. Byddwch yn gweld erthyglau ar dudalennau 4 a 5 sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am effaith positif yr orsaf a'r gwasanaeth newydd ar ailgylchu ym Merthyr Tudful, ond gadewch i mi fynegi fy niolch personol...

Diolch i Lywodraeth Cymru a roddodd £2m o arian, ni fyddai'r prosiect hwn yn bosibl hebdo.

Diolch i WRAP am weithio mewn partneriaeth agos â'r Cyngor trwy gydol proses gynllunio a gweithredu'r gwasanaeth newydd.

Diolch i'r holl staff cysylltiedig am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u penderfynoldeb parhaus i weithredu'r gwasanaeth yn llwyddiannus ac mewn pryd – un flwyddyn a gafwyd o ddyfarnu'r arian i ddechrau'r gwasanaeth, felly dylech i gyd fod yn falch iawn o hyn!

Yn olaf, ond nid lleiaf, diolch i chi, breswylwyr Merthyr Tudful am eich cydweithrediad gyda'r newidiadau ac am ei wneud iddo lwyddo.

Hoffwn hefyd longyfarch yr holl fyfyrwyr TGAU am y canlyniadau gorau erioed eleni! Mae'r ffigurau wedi cynyddu 20% dros y tair blynedd diwethaf.

Hoffwn hefyd longyfarch yr holl bobl ifanc sydd wedi cael eu canlyniadau cyfnod allweddol 4 heddiw. Mae canlyniadau eleni'n dangos gwelliant sy'n destament i waith caled y myfyrwyr a'r staff ac rydw i'n falch iawn o'r cynnydd a gyflawnwyd.

Ar ran y Cyngor gallaf gadarnhau bod ein hymrwymiad parhaus i ysgolion wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn gwybod mai'r buddsoddiad hwn ym mhobl ifanc y Fwrdeistref Sirol yw'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod pobl yn dysgu ac yn cyflawni'u huchelgeisiau, a bod Merthyr Tudful yn lle i fod yn falch ohono.

Cynghorydd Brendan Toomey, Arweinydd CBS Merthyr Tudful

Merthyr Tudful dathlu'r canlyniadau TGAU gorau

Mae mwy o blant wedi cael dechrau da i'w dysgu eleni nag erioed o'r blaen ac wedi cyflawni y tu hwnt i ddisgwyliadau ar bob cam pwysig yn ein hysgolion.

Mae'r dangosydd pwysicaf, trothwy lefel 2 cynhwysol (cyfwerth â 5 TGAU gradd A* - C gan gynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg), wedi cynyddu bron i 20% ers 2012.

Dywedodd y Cynghorydd Harvey Jones, Aelod Cabinet Dysgu Am Oes: "Yn u ar bymtheg oed, mae canlyniadau TGAU yn parhau i godi ac mae cynghorwyr unwaith eto eleni'n hynod falch o gyrhaeddiad myfyrwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol. Hoffwn gydnabod a diolch i bawb a gyfrannodd at y llwyddiant hwn. Ni ellir cyflawni'r fath welliannau bob blwyddyn heb ymrwymiad a phenderfynoldeb rhieni, llywodraethwyr, penaethiaid, staff ysgol a swyddogion yr awdurdod lleol ac estynnaf longyfarchiadau gwresog iddynt.

"Mae'r cyflawniadau hyn yn arbennig o bwysig oherwydd eu bod yn blatfform i lwyddiant yn y dyfodol ym maes addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn 2015 gall llawer mwy o'n pobl ifanc gael mynediad at y cyfleoedd hyn."

Dywedodd y Cynghorydd Brendan Toomey, Arweinydd CBS Merthyr Tudful hefyd: "Rydym bellach yn fwy hyderus fyth ein bod ar y trywydd cywir ac y bydd ein gweledigaeth a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol yn cyflawni gwelliant parhaus. Mae ein pobl ifanc eisoes wedi profi y gellir cyflawni ein disgwyliadau uchel ohonynt a byddem yn parhau i weithio tuag at lwyddiant mwy fyth."



Rhai o fyfyrwyr Blwyddyn 11 Pen-Y-Dre a chwalodd y record a'u Pennaeth Blwyddyn balch Mrs Lorraine Morgan:
O'r Ch i'r Dd – Whitney Davies, Abby Evans, Lorraine Morgan, Ellie Lewis, Rebecca Stone, Amyjayne Jones ac Amy Rees



Daniel Blackford-Weir, cyflawnwr gorau Ysgol Uwchradd Esgob Hedley gyda 7 A*, 1 A ac 1

ddful yn nlyniadau au erioed!



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Ar 1 Ebrill 2016 bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn dod i rym. Bydd y Ddeddf yn creu fframwaith cyfreithiol newydd a fydd yn:

- Gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalfwyr
- Gwneud y gyfraith Gofal Cymdeithasol yn haws eu defnyddio
- Rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl
- Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth angenrheidiol am fywyd da
- Esbonio pa olwg fydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru
- Sicrhau bod cyfle gan gymunedau i gynnig eu gwybodaeth a'u profiad

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i ddatblygu ystod o wasanaethau a fydd yn atal neu'n oedi'r angen am ofal a chefnogaeth. Bydd hyn yn golygu yn y dyfodol y byddwn yn gweld mwy o bobl yn cael cymorth gartref ac yn eu cymuned leol.

Bydd yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gefnogi'r rheini y mae'r angen fwyaf arnynt "y gall yr Awdurdod Lleol a'r Awdurdod Lleol yn unig ddiwallu'u hanghenion. Mae hyn yn cynnwys pobl hyn sy'n agored i niwed, pobl a chanddynt salwch meddwl a phobl na allant wneud pethau i'w hunain heb gymorth.

Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad yn gynharach eleni ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig, anabledd a/neu Gyflwr Meddygol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor ar 9 Medi lle derbyniwyd yr argymhellion a chymeradwywyd ac addaswyd y polisi i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion ag AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol fynediad at gludiant priodol ar sail asesiad o angen nid ar sail y ddarpariaeth a fynychir.

Bydd y polisi Cludiant Ysgol i ddisgyblion ag AAA, anabledd a/neu gyflwr meddygol yn dod i rym o 1 Medi 2016.

Gynhadledd Dreftadaeth yn digwydd

Mae'r Gynhadledd Dreftadaeth yn digwydd ar 27 Tachwedd eleni yn y Redhouse.

Am ragor o wybodaeth am y digwyddiad e-bostiwrch share@merthyr.gov.uk.



Elliot Phillips yw'r perfformiwr gorau yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa gyda 9 A* a 4 A



Catrin Powney o Ysgol Uwchradd Afon Taf a gyflawnodd 3 A* a 7 A



Diweddariad ar newidiadau ailgylchu

Bu sawl mis bellach ers i'r newidiadau ddod i rym felly rydym am roi diweddariad i chi ar rai o'r pethau gwych a fu'n digwydd!

- Hyd yn hyn rydym wedi cael canlyniadau cadarnhaol iawn, gyda llai o wastraff yn cael ei anfon i'r safle tirlenwi a deunyddiau o safon well yn cael eu hailgylchu.
- Rydym wedi gwella ac ymestyn y cyfleuster depo, sy'n ein galluogi i ddidoli a byrnu'r ailgylchu a gaiff ei gasglu o ochr y ffordd.
- Mae deunyddiau o safon well a chyfleusterau didoli gwell yn golygu ein bod yn gallu archwilio marchnadoedd i gael y cynnig gorau oll i drethdalwyr Merthyr Tudful.
- Rydym ni hefyd yn defnyddio cerbydau ailgylchu mwy effeithlon o ran defnydd tanwydd ac yn well na chadw swyddi, rydym hefyd wedi creu swyddi a hyfforddiant i bobl leol.

'Diolch am ailgylchu' meddai Aelod o Gabinet y Cyngor

Mae Aelod o Gabinet Cyngor Merthyr Tudful ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, y Cyngorydd David Jones, wedi diolch yn gyhoeddus i breswylwyr lleol am ddefnyddio'r system ailgylchu newydd.

Daw sylwadau'r Cyngorydd Jones bedair mis ar ôl cyflwyno'r system newydd o ddidoli ar ochr y ffordd sy'n gofyn i breswylwyr ddidoli gwahanol eitemau gartref mewn bocsys yn barod i'w casglu. Mae deunyddiau ailgylchu yn mynd wedyn i orsaf drosglwyddo newydd y cyngor lle caiff deunyddiau sydd wedi'u halogi'u tynnu allan. Caiff y gwastraff wedyn ei byrnu a'i storio'n barod i'w werthu.

Dywedodd y Cyngorydd Jones: "Rydw i am ddiolch i'r nifer gynyddol o bobl ledled Merthyr Tudful sy'n cymryd amser i ailgylchu'u gwastraff. Bu'r system newydd yn wers i'r Cyngor a'r preswylwyr.

"Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gyflawni targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i leihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi megis Trecatti."

"Mae gwella ein cyfradd ailgylchu'n dda i'r amgylchedd lleol, ond yn fwy na hyn mae'n helpu i sicrhau ein bod yn gallu gwario mwy o arian ar ein gwasanaethau rheng flaen hanfodol – yn hytrach nag ar drethi tirlenwi sylweddol."

"Diolch i help y preswylwyr, rydym wedi cynyddu ein cyfradd ailgylchu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin i 57% – cynnydd o 6% ers mis Mawrth! **Ac rydym yn hyderus gyda'ch helpu chi ein bod yn gallu cynyddu hyn yn fwy a chyrraedd y targed hynod heriol o 58% erbyn diwedd 2015/16!**"

Diolch i help y preswylwyr, rydym wedi cynyddu ein cyfradd ailgylchu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin i 57% – cynnydd o 6% ers mis Mawrth!

Gweinidog yn agor Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff Newydd

Agorodd Carl Sargeant, Gweinidog Cyfoeth Naturiol Cymru'r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd yn swyddogol ar 17 Medi 2015. Roedd cynrychiolwyr o CBSMT, Llywodraeth Cymru, WRAP ac Awdurdodau Lleol eraill yn bresennol yn y digwyddiad.

Mae'r cyfleuster depo estynedig, a fu'n weithredol ers mis Mehefin 2015, yn ein galluogi i ddidoli a byrnu'r deunyddiau ailgylchu a gaiff eu casglu o ochr y ffordd, ac mae wedi arwain at gasglu deunyddiau o safon lawer gwell. Mae deunyddiau o safon well a didoli gwell yn ein galluogi i archwilio marchnadoedd i gael y cynnig gorau oll i drethdalwyr Merthyr Tudful.

Mae'n bwysicach nawr nag erioed o'r blaen i leihau gwastraff ac ailgylchu'n effeithiol ac rydym yn gofyn i breswylwyr ein helpu gymaint â phosibl trwy:

- Glanhau cynwysyddion, poteli a jariau cyn eu rhoi yn y cynwysyddion ailgylchu – mae mwy o werth i ddeunyddiau ailgylchu glân
- Gadael eitemau'n rhydd yn y cynwysyddion ailgylchu er mwyn gallu'u didoli'n hawdd
- Ailgylchu ystod ehangach fyth o ddeunyddiau yng Nghanolfannau Gwastraff Tŷ ac Ailgylchu Dowlais ac Aberfan
- Ewch i www.recycleforwales.org.uk i ddysgu sut y gallwch leihau'ch gwastraff bwyd ac arbed arian!

Mae ailgylchu'n talu ffordd:

- Rydym yn cael tua £62 y dunnell o'r deunyddiau rydych chi'n eu rhoi yn eich sach glas, bocs gwyrdd/du a fydd yn helpu i gynnal eich gwasanaethau casglu
- Rydym yn talu £53 y dunnell i drin y gwastraff bwyd rydych chi'n ei roi yn eich cynhwysydd gwastraff bwyd glas
- Rydym yn talu £28 y dunnell i gompostio'r gwastraff gardd rydych chi'n ei roi yn eich sach gwyrdd
- Mae cost o £107.76 y dunnell i gael gwared ar y sbwriel rydych chi'n ei roi yn eich bin llwyd ar y safle tirlenwi.

Y ffeithiau:

- Mewn 4 blynedd mae cost ymdrin â'r gwastraff na chaiff ei ailgylchu wedi cynyddu 20%
- Mae cost o £107.76 y dunnell i gael gwared ar wastraff o'ch bin llwyd ar hyn o bryd, felly mae cost o £5,000 y dydd i ni gael gwared ar y gwastraff hwn o bob rhan o Ferthyr Tudful - sy'n swm sylweddol o £1.3 miliwn y flwyddyn!
- Mae astudiaethau'n dangos bod modd ailgylchu tua 75% o wastraff cartref ar ochr y ffordd



Mae
astudiaethau'n
dangos bod modd
ailgylchu tua 75% o
wastraff cartref ar
ochr y ffordd



Enw Newydd i Brosiect Glanrafon... Golwg Yr Afon

Mae'r gwaith o osod isadeiledd Prosiect Glanrafon yn prysur fynd rhagddo ac mae disgwyl y bydd y cynllun wedi ei gwblhau yn ddiweddarach eleni. Fel rhan o hyn bydd gwaith yn cael ei wneud i adfer ac amddiffyn tai sydd wedi dioddef oherwydd llifogydd ac i ddiogelu tai newydd rhag yr un ffawd. At hyn bydd ffordd fynediad yn cael ei chodi ynghyd â ffordd newydd a phontydd troed. Bydd y rhain yn cysylltu cymunedau Ynysowen ac Aberfan ac yn arwain at y Ganolfan Ailgylchu a Gwastraff cartref a agorwyd ddechrau mis Awst. .

Fodd bynnag, doedd gan y ffordd newydd ddim enw. Casglwyd 36 enw posib felly gan drigolion y fro ac aelodau o Brosiect Glanrafon ac fe ddewiswyd dau enw o blith y rhain. Trefnwyd pleidlais gyhoeddus wedyn dros y cyfryngau cymdeithasol a'r canlyniad oedd dewis Golwg yr Afon fel enw ar y ffordd newydd. Bydd yr enw, mewn amser, yn dod i adlewyrchu gweledigaeth y prosiect sef creu canolbwynt bywiog, hyfwrw a chynaliadwy i Ynysowen ac Aberfan gan ddathlu prydferthwch Cwm Taf ar yr un pryd.

Wrth gwrs, ddylem ni fyth anghofio hanes hir a balch y safle fel glofa Ynysowen. Rydym ni am ddathlu hyn hefyd drwy symud yr hanner olwyn o'r hen bwl sy'n gorffwys ar hyn o bryd ar dir Ysgol Rhyd y Grug i ganol cylchfan newydd Bells Hill. Byddwn hefyd yn llunio cerflun maint llawn o löwr i sefyll yn ymyl yr olwyn fel teyrnged addas i dreftadaeth y safle.

Mae Prosiect Glanrafon wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'n gynllun cynhwysfawr sy'n mynd i'r afael

â materion tymor hir sy'n wynebu'r ardal drwy roi cyfleoedd i drilolion y fro (cynnig cartrefi newydd i bobl sydd wedi dioddef llifogydd, creu ysgol, pont a mynedfa newydd ac ati). Ond mae'r prosiect yn creu cyfleoedd hefyd ar ffurf tai newydd fydd yn rhoi hwb i economi'r fro ac yn llesol i bawb. Mae hi'n bosib denu nid yn unig pobl leol i brynu'r tai hyn ond creu cartrefi rhad i gymudwyr hefyd. Dyw'r safle yn ddim ond tafliad carreg o orsaf drenau Ynysowen lle mae trenau cyflym a chyson yn teithio i Ferthyr Tudful ei hun ac yna i Gaerdydd fel rhan o weledigaeth Cynllun Metro Rhanbarth Caerdydd. Erbyn diwedd 2015 bydd yr ardal yn addas i ddatblygu tai arno. Yn wir, mae datblygwyr wedi dangos cryn ddiddordeb eisoes ac yn ôl pob tebyg bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n gyflym yn 2016 a 2017.



cynnig cartrefi newydd i bobl sydd wedi dioddef llifogydd, creu ysgol, pont a mynedfa newydd...

Manwerthwyr ym Merthyr Tudful yn cael eu hannog i wneud cais am Ryddhad Ardrethi Manwerthu Cymru

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful unwaith eto'n gweithredu cynllun rhoi ryddhad ardrethi busnes ychwanegol i fanwerthwyr lleol.

Cyhoeddwyd Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill a bydd yn rhoi rhyddhad ar eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel eiddo manwerthu â gwerth ardrethol o £50,000 neu lai.

Mae eiddo a allai elwa ar hyn gynnwys ystod eang o siopau, bwytai a chaffis, a gall busnesau cymwys hawlio gostyngiad o hyd at £1,500 ar ben unrhyw ryddhad arall sydd ar gael megis y Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach maent yn ei hawlio eisoes.

Elwodd dros 200 o fusnesau ym Merthyr Tudful ar Gynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru'r llynedd a bydd tîm ardrethi busnes y Cyngor yn anfon ffurflenni cais at fusnesau dynodedig a allai fod yn gymwys am gynllun eleni.

Mae'r sector manwerthu'n newid, yn arbennig o ganlyniad i siopa ar y we, ac mae strydoedd mawr ar hyd a lled y wlad yn wynebu amgylchedd masnachu heriol.

Un o amcanion gwella allweddol Cyngor Merthyr yw cefnogi a buddsoddi yn ein canol trefi a'n cymunedau i hybu twf economaidd.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y cynllun neu os hoffech wneud cais, cysylltwch ag adran Ardrethi Busnes y Cyngor ar y cyfeiriad isod.

g

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun hefyd ar gael ar y gwefannau canlynol:

www.merthyr.gov.ukgov.wales

Ffôn: 01685 725239

E-bost: revenues@merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Ardrethi Busnes

Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

*Elwodd dros 200 o
fusnesau ym Merthyr
Tudful ar Gynllun Rhyddhad
Manwerthu Cymru'r llynedd
a bydd tîm ardrethi busnes
y Cyngor yn anfon ffurflenni
cais at fusnesau dynodedig
a allai fod yn gymwys am
gynllun eleni.*



Cymuned yn tynnu at ei gilydd ar ei orau!

Bu pobl ifanc Prosiect Ieuenctid Forsythia ac Ysgol Bishop Hedley yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth a dyfalbarhad yn arwain at lwyddiant.

Diolch i'r grŵp hwn o Ystâd Gurnos, mae prosiect ar waith i roi croesfan sebra ar draws ffordd brysur yn ogystal â goleuadau ychwanegol ar stryd dywyll ger ffordd danddaearol yn yr ardal er mwyn i holl bobl y gymuned deimlo'n fwy diogel.

Dyna'r tri angen mwyaf yn yr ardal yn ôl gwaith ymchwil y grŵp fel rhan o Citizens Cymru Wales a phrosiect ymchwil Prifysgol Caerdydd. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys gwrandao ar eu cymunedau lleol a chanfod y materion pwysig a'u troi'n ymgyrchoedd lleol. Aethon nhw ati felly a chwedd â Chomisiynydd yr Heddlu, Alun Michael, Prif Arolygydd Heddlu De Cymru, David Pert a'r AS Gerald Jones, i amlygu'r materion.

Cafwyd cyfarfod wedyn gydag Arweinydd CBS Merthyr Tudful, y Cynghorydd Brendan Toomey a swyddogion yr Awdurdod Lleol a dyna

ddechrau ar y gwaith. Mae disgwyl y bydd y prosiect wedi ei gwblhau mor fuan â mis Ebrill 2016!

Dyweddodd y Cynghorydd, Brendan Toomey: "Mae'r cynllun Sebra'n enghraifft wych o gysylltu cymunedol gan bobl ifanc Prosiect Ieuenctid Forsythia. Roedd hi'n anrhydedd i mi gael helpu i hwyluso gweithrediad y cynllun yn ei gyfanrwydd a hoffwn i longyfarch y holl bobl ifanc sy'n rhan o'r prosiect am y ffordd y bu iddyn nhw amlygu'r anawsterau roedden nhw'n eu cael yn yr ardal ac am gyflwyno'u hunain mewn ffordd mor broffesiynol. Maen nhw'n glod i'w cymuned".



Bu pobl ifanc Prosiect Ieuenctid Forsythia ac Ysgol Bishop Hedley yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth a dyfalbarhad yn arwain at lwyddiant.

Cronfa Gymunedol Ffos Y Fran

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweinyddu Cronfa Gymunedol o ran y taliadau breindol a geir gan y Cyngor gan Miller Argent Limited ar sail y tunelli glo a gloddiwyd o Gynllun Adennill Tir Ffos y Fran.

Mae Miller Argent wedi cytuno mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i groesawu ceisiadau am gymorth o Gronfa Gymunedol Ffos y Fran. Rhaid i bob cais gefnogi prosiectau cymunedol lleol gyda phwyslais ar addysg, yr amgylchedd neu hamdden. Mae'r Gronfa Gymunedol wedi'i rhannu'n 3 chategori:

Cronfa Fach – Mae'r Cynllun Cronfa Fach ar gyfer ceisiadau o £1,000 neu lai. Mae ffurflenni cais ar gael gan Gynghorwyr Adran Ward Etholiadol eich ardal.

Cronfa Ganolig – Mae'r Gronfa Ganolig ar gyfer ceisiadau hyd at £5000. Rhaid i geisiadau allu dangos cyfran o arian cyfatebol i uchafswm o 50% o gyfanswm cost y prosiect. Cynhelir paneli asesu bob 6 mis a bydd y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill 2016. Mae ffurflenni cais ar gael gan Gydlynnydd Cronfa Buddion Grantiau Ffos y Fran.

Cronfa Fawr – Mae'r Gymuned Fawr ar gyfer ceisiadau rhwng £5000 a £500,000. Mae'r cynllun hwn ar gau ar hyn o bryd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Chydlynnydd Cronfa Buddion Grantiau Ffos y Fran ar 01685 725289 neu ffosyfran@merthyr.gov.uk

CWM TAF community engagement HUB



Mae Hwb Ymgysylltu â'r Gymuned Cwm Taf ar gael i roi cyfle i'r rheini sy'n gweithio, yn byw neu'n cyflwyno gwasanaethau ym Merthyr Tudful a RhCT i ddweud eu dweud am wasanaethau lleol.

Byddwch yn rhan o'ch cymuned a dywedwch eich barn wrthym. Ar y cyd... gallwn wneud gwahaniaeth.

Ymunwch â ni nawr trwy fynd i www.cwmatahub.co.uk

Sioe tân Gwylt

Bydd Sioe Awyr Tân Gwylt eleni ar ddydd Iau 5 Tachwedd ym Mharc Cyfarthfa.


Mae tocynnau'n £7 am docyn teulu ar gyfer pedwar person wrth eu prynu cyn y digwyddiad ac yn £2.50 y person wrth eu prynu ar y noson.

Bydd y gatiâu'n agor am 5:45yp, a'r arddangosfa'n dechrau am 7:15yh. Bydd y Parc yn aros ar agor tan 9yh ar gyfer y Ffair.

Bydd bysiau gwennol ar gael a fydd yn mynd o'r Llysoedd Barn i'r Parc, gan ddechrau o 5:30yp.



Mae'r llyfryn Dysgu Oedolion yn y Gymuned newydd ar gael yn awr. ymweliad www.merthyr.gov.uk i lawrlwytho eich copi heddiw



Oes gennych chi syniad mawr?
Ydych chi'n newydd i fyd busnes?
Ydych chi'n dymuno tyfu?

Mae Effect Merthyr Tudful yma i roi cefnogaeth fusnes gyfrinachol am ddim i fusnesau newydd a sefydledig.

Oes gennych chi **Syniad Mawr? Egni? Angerdd?** Efallai'r cam cyntaf yw siarad â rhywun. Gall Effect Merthyr Tudful helpu.

Jared Green yw eich Hwyluswr Menter
Ff: 07730 283812 neu 01685 724919
E: jared.green@merthyr.gov.uk

Nadolig Llawen i chi Gyd!

Ymunwch â ni... ym Merthyr Tudful am dymor yn llawn o fwyd, siopa a hwyl yr ŵyl.

g

Marchnad Nadolig

12, 13 a 14 Tachwedd o 9yb – 5yp

Stryd y Farchnad a Chanolfan Siopa Santes Tudful

Mae Merthyr yn croesawu masnachwyr bwyd a nwyddau arbenigol o Brydain a'r cyfandir i'w ail Farchnad Nadolig. Os ydych yn edrych am rywbeth ychydig yn wahanol, dyma'r lle i ddod.

g

Marchnad Aeaf A Llawr Sglefrio

5 Rhagfyr o 10yb – 5yp

Sgwâr Penderyn a Redhouse

Sglefriwch ar ein llawr iâ artiffisial a blaswch ddanteithion ein marchnad fwyd a chrefftau arbennig. Bydd llawer o adloniant a digon o hwyl i'r plant hefyd!

g

Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen

14 Tachwedd o 11yb ymlaen

Canol Tref Merthyr Tudful

Sbwyliwch eich hun a dewch am ddiwrnod o hwyl yr ŵyl gydag adloniant, Siôn Corn, ceirw go iawn, ffair, gweithgareddau plant, marchnadoedd crefft ac awyr agored, cerddoriaeth... a llawer mwy!

g

Hwyl Yr ŵyl Yng Nghanolfan Siopa Santes Tudful

8 Tachwedd Ben a Holly

5 Rhagfyr Dyn Eira'r Nadolig a Band Byddin yr Iachawdwriaeth

12 Rhagfyr Siôn Corn gyda Merthyr Mendicants

19 Rhagfyr Captain Barnacles





***Sglefriwch ar
ein llawr iâ
artiffisial***





Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)

Mae'r rhaglen VVP yn ei hail flwyddyn bellach. Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus i randdeiliaid ar 26 Mehefin 2015 a alluogodd rhanddeiliaid i gyfrannu at gyflwyniad y Rhaglen er mwyn amlinellu'r hyn oedd yn gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella yn eu barn nhw.

Roedd y digwyddiad yn hynod o lwyddiannus gyda nifer o gyflwyniadau ar gynnwys y YMCA, Parc Penyarden a Menter Gydweithredol Gellideg. Llwythwyd manylion y digwyddiad ar Twitter trwy gydol y dydd i amlygu datblygiadau mawr a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf ers lansio'r Rhaglen VVP.

Ar 21 Gorffennaf agorodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths AC, Canolfan Fenter Merthyr Tudful (MTEC) yn swyddogol, ynghyd â'r Cynghorydd Brendan Toomey, Arweinydd y Cyngor a Huw Lewis AC. Mae MTEC yn cael ei gyflwyno trwy gytundeb partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Tydfil Training a Taste of Enterprise ac fe'i sefydlwyd i annog Menter,

Cyflogaeth ac Entrepreneuriaeth. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli yn 114 Stryd Fawr yng Nghanol Tref Merthyr Tudful. Ariennir y prosiect gan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru.

Nod y prosiect yw cefnogi busnesau newydd a phresennol trwy bwynt cyswllt canolog. Caiff cyfranogion y prosiect sy'n cael mynediad at y Ganolfan Fenter eu hasesu o ran lefelau sgiliau busnes a sgiliau personol, gan ddylunio Cynllun Gweithredu penodol sy'n cwmpasu'r ddwy elfen i bob unigolyn yn ystod eu cyfnod o gefnogaeth. Mae'r prosiect yn unigryw gan ei fod yn cysylltu busnesau newydd posibl â chyngor a chefnogaeth fusnes ac mae'n parhau i wella sgiliau personol perchnogion y busnes. Mae'r prosiect yn ceisio helpu pobl i gael

mynediad at gyfleoedd gwaith ac ennill incwm, gan geisio datblygu sgiliau, ac yn gweithio gyda busnesau presennol a newydd i ehangu a datblygu syniadau newydd. Creu swyddi yw prif ganlyniad y prosiect ynghyd â rhoi cymwysterau i gyfranogion, gan gysylltu'n agos â'r Agenda Trechu Tlodi.

Mae'r rhaglen yn cynnwys cyllid manwerthu i fusnesau newydd a phresennol er mwyn helpu â phryniant cyfalaf hyd at £5,000 ar gyfradd ymyriad 70%. Yn ogystal â hyn, mae Cynllun Defnydd yn y Cyfamser hefyd ar gael i fusnesau newydd neu fusnesau sy'n ehangu allu treialu masnachu cynnyrch newydd mewn eiddo gwag ar hyd a lled Canol y Dref, gan ddarparu cyfle masnachu ag iddo risg isel a gwella'r cynnyrch

a'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghanol y Dref. Ar 10 Medi 2015 agorodd Deli of the Valley ei ddrysau yn 12 Sgwâr y Farchnad, sef y Cynllun yn y Cyfamser cyntaf a ariannwyd trwy'r Rhaglen.

Mae dyfodol yr adeilad YMCA ym Merthyr Tudful yn edrych llawer yn fwy sicr bellach, yn sgil £2.6 million o arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Bydd yr arian, ynghyd ag £1.1m o'r rhaglen VVP, yn cael ei ddefnyddio i roi bywyd yn ôl i'r adeilad adnabyddus ar ôl amser sylweddol o'r neilltu, gyda chynlluniau i'w droi'n 11 o unedau masnachol, a allai arwain at 70 o swyddi newydd lleol.

Adeiladwyd yr adeilad YMCA ym 1911 a bu ei fywyd yn anarferol fel y byddai'r cynllun hynod yn ei awgrymu. Bu'r adeilad, a



ddyluniwyd gan y pensaer Cymraeg o fri Syr Percy Thomas ym 1911 gyda'i flaen terracota a brics coch, yn gampfa baffio ac yn neuadd ddawns. Yn wir, byddai pencampwr Prydain mewn paffio, Eddie Thomas yn hyfforddi yma.

Esboniodd Jennifer Stewart, pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, sut y bydd y grant yn rhoi enw i'r adeilad unwaith eto.

"Gyda'r buddsoddiad cywir, yn ogystal â darparu mannau ysbrydoledig lle gall menter ffynnu, gall adeiladau hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar economïau lleol," meddai. Ychwanegodd Stewart fod Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi chwarae rôl bwysig yn y dref, gan nodi sut y mae wedi buddsoddi dros £6.5 miliwn mewn prosiectau megis Traphont Cefn

Coed, Canolfan Soar, Hen Neuadd y Dref Merthyr, Parc Cyfarthfa a'r Fenter Treftadaeth Dreflun.

Dywedodd Claire Deacon, o Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gâr sydd wedi derbyn y wobr, y bydd yr arian yn "rhoi bywyd newydd i'r adeilad", gan ychwanegu na fydd yn hir cyn iddo ddod yn "hwb gweithgarwch economaidd a chymdeithasol yng nghanol Merthyr Tudful".

Mae datblygiadau wedi dechrau ar Neuadd y Glowyr a'r Theatr Frenhinol, dau adeilad rhestredig allweddol yng Nghanol y Dref. Cynhaliwyd arolygon strwythurol ar y ddau adeilad a fydd yn helpu'r awdurdod lleol i ddatblygu cynlluniau manylach ar gyfer y safle. Disgwylir y bydd Neuadd y Glowyr yn cael ei rhoi i'w chadw a'i wneud yn ddiogel

yn strwythurol. Mae Cymdeithas Dai Merthyr Tudful wedi cael y safle cyfagos i Neuadd y Glowyr, y Miners Arms, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei roi ar gadw gyda'r nod o ddatblygu'r safle dros y blynyddoedd nesaf.

Efallai eich bod wedi sylwi ers i'r cynlluniau gael eu cymeradwyo bod gwaith wedi dechrau ar y Gyfnewidfa Lafur a Safle Promenâd Pontmorlais. Mae Tai Cymru a'r Gorllewin yn dymchwel hen adeilad y Gyfnewidfa Lafur ar hyn o bryd wrth gadw blaen yr adeilad. Mae Tai Cymru a'r Gorllewin hefyd yn gwneud gwaith archeolegol ar y safle a bydd y prif waith seilwaith yn dechrau dros y misoedd nesaf.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddyluniad yr Orsaf Fysiau newydd tua diwedd mist Awst/dechrau mis Medi. Mae'r tim dylunio wedi

cynnwys yr artist Chris Tipping a ymchwiliodd i'r ardal leol a datblygu dyluniad oedd yn adlewyrchu'r dirwedd leol a hen adeiladau'r gwaith haearn a'r golau ddaeth ohonynt. Mae'r dyluniadau bellach wedi'u cwblhau a chyflwynwyd cais cynllunio.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflymu Cymru...

...cynllun sy'n trawsnewid y ffordd mae band eang yn gweithio yng Nghymru drwy gyflwyno band eang cyflym iawn i ran fwyaf o dai a busnesau'r wlad.

Yn wir, mae band eang cyflym iawn eisoes wedi cyrraedd rhannau helaeth o fwrdeistref sirol Merthyr Tudful gyda phob un o bedair cyfnewidfa ffôn y sir bellach wedi eu huwchraddio. Mae 97% o'r tai ar gyfnewidfa Beddwlwynog nawr yn gallu defnyddio band eang cyflym iawn ynghyd â 98%

o'r tai ar gyfnewidfa Treharris, 91% ar gyfnewidfa Merthyr Tudful a 93% ar gyfnewidfa Ynysowen. Cysylltwch â chwmni cyfathrebu felly i weld a yw band eang cyflym iawn ar gael ar gyfer eich tŷ chi.

g

Manteision band eang cyflym iawn:

Ar gyfer eich cartref – gyda band eang cyflym iawn mae modd mwynhau pob math o adloniant yn rhwydd a diffwdan. Er enghraifft, dal i fyny gyda theledu'r wythnos gyda gwasanaethau dal i fyny. Fe allwch chi ffrydio ffilmiau ar unwaith neu lawrlwytho rhaglenni mewn ychydig funudau. Ac fe allwch chi lawrlwytho cerddoriaeth ar gyfer gwyliau neu barti gan uwchlwytho a rhannu lluniau a fideos o'r adegau arbennig hynny ar yr un pryd. Oherwydd bod modd cysylltu'n rhwydd â band eang cyflym iawn mae hi'n hawdd eithriadol gweithio o gartref, neu yn wir, o unrhyw fan y tu allan i'r swyddfa. Oherwydd bod modd uwchlwytho a lawrlwytho'n gynt mae modd cael gafael ar eich dogfennau gwaith heb unrhyw drafferth o gwbl.

Ar gyfer eich busnes – gweithiwr yn graffach, yn well ac yn gynt. Mae modd i fand eang cyflym iawn drawsnewid y ffordd mae'ch busnes yn gweithio. Gall y dechnoleg gyflym helpu'ch busnes i fod yn fwy cynhyrchiol a chost-ffeithiol a chystadlu ar raddfa fyd-eang. Byddwch yn medru uwchlwytho a lawrlwytho pethau'n gynt ac yn medru gweithio mewn ffyrdd gwahanol hefyd. At hyn, gyda band eang cyflym iawn mae modd gwneud mwy dros y we sy'n golygu llai o deithio. Yn wir, mae modd masnachu gydag unrhyw un yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd. Bydd eich cwsmeriaid yn gweld y gwahaniaeth hefyd.

Uwchraddiwch heddiw i gael y manteision yn llawn.

Tri cham i fywyd gyda band eang cyflym:

1. Edrychwch yw'r gwasanaeth ar gael yn eich ardal chi drwy fynd i superfast-cymru.com
2. Cysylltwch â'ch darparwr gwe
3. Uwchraddiwch heddiw i fyw'r bywyd cyflym

I wybod mwy am fand eang cyflym iawn yng Nghymru ewch i www.superfast-cymru.com

Mae Cyflymu Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, BT, Llywodraeth Prydain a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Hon yw'r bartneriaeth fwyaf o'i bath ym Mhrydain.

Gweithiwr yn graffach, yn well ac yn gynt. Mae modd i fand eang cyflym iawn drawsnewid y ffordd mae'ch busnes yn gweithio.

Gwasanaeth newydd sy'n helpu i gleifion canser gael cyngor ar fudd-daliadau



Shirley Melly yw ymgynghorydd budd-daliadau lles newydd Macmillan sy'n cynnig cyngor i bobl sydd wedi cael diagnosis cancer a'u teuluoedd ar fudd-daliadau a gwybodaeth bwysig arall.

Mae'r gwasanaeth cyfrinachol â ddim yn Uned Canser Macmillan Ysbyty'r Tywysog Siarl ar gael i gleifion, eu gofalywyr a'u teuluoedd i'w helpu i gael eu hawliad budd-daliadau a helpu i uchafu'u hincwm gan gynnwys cymorth â grantiau.

Dyweddodd Shirley: "Mae'n bwysig bod cleifion yn cael y budd-daliadau y mae hawl ganddynt iddynt. Mae'r pwysau ariannol ar ein cleifion nad ydyn nhw'n gallu gweithio'n faich enfawr.

"Mae sicrhau bod y cleifion hyn yn cael eu hawliad budd-daliadau cywir yn rhoi tawelwch meddwl iddyn nhw ac yn helpu i leddfu'u pryder."

Dyweddodd Susan Morris, Rheolwr Cyffredinol Cymorth Canser Macmillan Cymru: "Mae gwaith ymgynghorwyr budd-daliadau lles Macmillan fel Shirley, yn amhrisiadwy wrth gefnogi pobl sydd wedi cael diagnosis cancer, sy'n aml yn wynebu caledi ariannol ar adeg pan eu bod yn fwyaf bregus.

"Helpodd ein hymgyngorwyr budd-daliadau lles ledled Cymru i bobl hawlio £13.3 miliwn mewn budd-daliadau ariannol llynedd. Gwnaethant hefyd helpu pobl i gael grantiau gan Macmillan.

"Fodd bynnag mae'r canlyniadau'r Arolwg Profiad Cleifion Canser Cymru'n dangos nad yw dros hanner (56%) o gleifion cancer yng Nghymru yn cael digon o wybodaeth am gyngor ar fudd-daliadau lles.

"Mae'n hollbwysig bod pobl sy'n byw â chanser yn cael eu cyfeirio i gymorth arbenigol ac amserol o safon gyda budd-daliadau lles, er mwyn eu helpu i ymdopi ac i reoli effaith ariannol eu diagnosis."

Am fynediad at y gwasanaeth gallwch e-bostio shirley.melly@merthyr.gov.uk neu ffonio 01685 725094.

*Mae'r pwysau
ariannol ar ein
cleifion nad
ydyn nhw'n gallu
gweithio'n faich
enfawr.*





M&S Merthyr Tudful Yn Ddod

Bydd lansiad siop newydd M&S ym Merthyr Tudful ym mis Hydref eleni'n dod â thros 120 o swyddi i'r dref.

Fel rhan o'r broses recriwtio, bu M&S yn awyddus i recriwtio o'r ardal leol gymaint â phosibl, a bu'n gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Byd Gwaith a'i bartneriaid M&S Marks & Start* – Remploy, Prince's Trust a Gingerbread – i chwilio am staff dawnus a brwdfrydig i ymuno â'r tîm.

Mae Marks & Start yn rhaglen sy'n ceisio rhoi hwb i hyder y rheini sy'n ddi-waith a'u hailgysylltu â'u sgiliau cyn rhoi profiad gwaith iddyn nhw gydag un o fanwerthwyr mwyaf y stryd fawr yn y DU. Bu M&S yn gweithio gyda Remploy (sy'n cefnogi pobl ag anableddau a chyflyrau iechyd), Gingerbread (sy'n helpu rhieni sengl) a'r Prince's Trust (sy'n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16-25 oed).

Mae M&S hefyd wedi cydweithio gyda'r Tîm Cyflogadwydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddatblygu pecyn hyfforddi pwrpasol sy'n darparu'r holl offer angenrheidiol i geiswyr swyddi lwyddo. Mae gwasanaethau'n cynnwys cefnogaeth gyda thechnegau cyfweiliad a cheisiadau ar-lein, cipolwg a chyngor ar M&S o safbwynt ei staff ac ymweliadau wedi'u trefnu'n arbennig i weld siop M&S brysur yng Nghaerdydd ar Stryd y Frenhines.

Yn ogystal â hyn, unodd timau siopau M&S o Gymru gyfan i drawsnewid y Cyfleuster Hyfforddiant Manwerthu yng Nghanolfan Dysgu yn y Gymuned Merthyr Tudful, gan gyfoethogi ymrwymiad y siop i gefnogi ceisiadau o'r

gymuned leol. Mae'r cyfleuster Hyfforddiant Manwerthu wedi'i dylunio i roi cyfle i geiswyr swyddi gael profiad ymarferol o weithio mewn siop, ac mae wedi'i ailaddurno a'i ail-frandio fel siop M&S a bu staff o siop M&S Caerdydd wrth law i roi cyngor ar wasanaeth cwsmeriaid gwych.

Dywedodd David Bowen, Rheolwr Siop M&S Merthyr Tudful: "Rydym ni i gyd yn hynod gyffrous am agor ein siop newydd ym Merthyr Tudful ac rydym wrth ein boddau ein bod wedi gallu recriwtio cymaint o bobl o'r ardal leol. Yn M&S, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddod yn rhan o'r cymunedau rydym yn gweithio ynddyn nhw ac mae hynny'n fwy na chynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid, mae'n ymwneud â darparu cyfleoedd gyrfya gwych i bobl leol hefyd."

Bydd M&S Merthyr Tudful yn agor am 10yb ar ddydd Iau 29 Hydref ym Mharc Manwerthu Cyfarthfa. Bydd y siop ar agor rhwng 8yb ac 8yh dydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 11yb a 5yp ar ddydd Sul, gyda pharcio am ddim.

Bydd Helen Walsh, o Ferthyr Tudful, yn ymuno â thîm siop newydd M&S y dref fel Cynorthwydd Cwsmeriaid Dillad Menywod pan fydd y siop yn agor ym mis Hydref eleni.

Gweithiodd gynt i Hoover Candy yn y ganolfan ffonio gwasanaethau a chynnal a chadw, ond cafodd Helen ei diswyddo ym mis Ionawr 2014 ac mae wedi cael anhawster dod o hyd i swydd newydd ers hynny.



*...i chwilio am
staff dawnus
a brwdfrydig i
ymuno â'r tîm.*

d Â 120 O Swyddi Newydd

Cafodd bod allan o waith am gyhyd effaith niweidiol ar hyder Helen, felly bachodd y cyfle i elwa ar y gwasanaethau oedd ar gael i ymgeiswyr M&S yng Nghanolfan Dysgu yn y Gymuned Merthyr Tudful.

Dywedodd Helen: "Mae fy llyschwaer yn gweithio yn y ganolfan a phan glywais eu bod yn helpu Marks and Spencer i recriwtio, plediais gyda hi i gyflwyno fy enw. Rydw i wedi tyfu i fyny gyda M&S ac rwy'n dwlu arni. Roedd arfer bod yn ddiwrnod i'r brenin i fi a fy mam ymweld â'r siop yng Nghroes Cwrlwys ac mae'n frand rwy'n ymddiried ynddo.

"Roeddwn i wedi cael anhawster dod o hyd i waith ar ôl cael fy niswyddo ar ddechrau llynedd ac roeddwn i'n dechrau meddwl bod cyflogwyr eisiau hurio pobl iau yn unig. Pan glywais fod M&S yn edrych am bobl o'r ardal leol i'w recriwtio a'u bod yn darparu cymorth ac arweiniad ar beth roedd ei angen ar weithwyr newydd, roeddwn i wrth fy modd.

"Mae pawb yn y Ganolfan Dysgu yn y Gymuned wedi bod yn gymaint o help. Yn darparu cipolwg ar M&S, sut maen nhw'n gweithredu a beth yw rôl cynorthwydd cwsmeriaid – helpodd i roi hwb i fy hyder ar gyfer fy nghyfweliad.

"Mae agor siop M&S yn ddigwyddiad mawr ym Merthyr Tudful ac rydw i mor hapus i fod yn rhan ohono. Rwy'n wirioneddol yn credu bod M&S yn gwerthfawrogi'r profiad y gall pobl hyn fel fi ei gynnig i'r rôl ac rydw i ar bigau'n aros i groesawu ein cwsmeriaid i'r adran dillad menywod ar y diwrnod agoriadol."

Bydd Jane Gregory, o Drelewis,

wastad wedi gweithio mewn swyddfa, ond ar ôl penderfynu ei bod yn amser newid gyrfa'n gynharach eleni, ni chafodd waith am bum mis.

Dywedodd Jane: "Roeddwn i'n gwybod nad oedd gwaith swyddfa i fi bellach ac roeddwn i'n awyddus cael rôl newydd a fyddai'n fy ngalluogi i deimlo'n fwy fel rhan o dim. Fodd bynnag roedd ffeindio swydd newydd yn hynod anodd a dechreuais golli'r gred ynof fy hun a'r hyn y gallwn ei gynnig.

"Pan glywais eu bod nhw'n bwriadu agor siop M&S ym Merthyr Tudful, roeddwn i'n gwybod y byddai'n gyfle perffaith i fi a gwnes i'n sicr bod y Ganolfan Waith yn cyflwyno fy enw ar unwaith.

"Roedd cymorth y Ganolfan Dysgu yn y Gymuned yn amhrisiadwy a gallaf i ddim diolch ddigon i bawb yna. Rhoddon nhw arweiniad a'n harwain trwy sefyllfaoedd chwarae rôl er mwyn i ni ddod i nabod gwerthoedd brand M&S a sut maen nhw'n ymdrin â gofal cwsmeriaid. Cawsom ni gyfle hyd yn oed i fynd i M&S Caerdydd i gwrrd â'r staff a chael teimlad o sut beth fyddai gweithio yn M&S.

"I fi mae M&S yn frand sy'n golygu safon. Mae'n cael ei barchi ac rydw i mor falch o allu dweud fy mod i'n gweithio iddyn nhw. Rydw i'n hoffi pobl ac mae'r syniad o weithio mewn amgylchedd manwerthu lle gallaf i ryngweithio â chwsmeriaid a gweithio fel rhan o dim yn gyffrous iawn."

Byrddau Diogelu Cwm Taf

Petai'r holl asiantaethau partner sy'n MEDRU gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn gweithio gyda'i gilydd, does dim dadlau y gellid cyflawni mwy a helpu a diogelu mwy o bobl.

Mae Byrddau Diogelu Cwm Taf yn grwpiau statudol sy'n dod â nifer o asiantaethau at ei gilydd i sicrhau:

- Bod oedolion sydd mewn peryg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn derbyn gofal, ac i atal sefyllfaoedd fel hynny rhag codi yn y lle cyntaf. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan Fwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf.
- Y caiff plant eu diogelu rhag cael eu cam drin, eu hesgeuluso neu rhag niwed o fath arall, ac i atal sefyllfaoedd fel hynny rhag codi yn y lle cyntaf. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf.

g Diogelu Oedolion

Dylai pawb dros ddeunaw oed allu byw yn rhydd o ofn a thrais a chael eu trin â pharch ar sail eu hawliau a'u dewisiadau. Mae rhai pobl yn llai abl i amddiffyn eu hunain na'i gilydd, ac mae pobl eraill weithiau'n ei chael hi'n anodd mynegi eu teimladau a'u dymuniadau. Mae'r ddwy garfan yma o bobl yn fwy agored i gael eu cam-drin.

Ystyr cam-drin oedolyn yw trin rhywun mewn modd sy'n eu dychryn, sy'n eu gwneud yn anhapus, sy'n eu brifo neu sy'n cymryd mantais arny'n nhw. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r person sy'n gwneud y cam-drin yn rhywun mae'r dioddefwr yn ei adnabod neu'n rhywun y dylen nhw allu ymddiried ynddo.

Gall y cam-drin ddigwydd wrth law unrhyw un ac mewn unrhyw le ac fe all fod yn un weithred neu barhau dros fisoedd neu flynyddoedd. Fe all cam-drin amrywio o amharchu rhywun mewn modd sy'n effeithio'n sylweddol ar eu hansawdd bywyd i achosi dioddefaint corfforol.

g Diogelu Plant

Mae lles a diogelwch pob plentyn yn gyfrifoldeb ar bawb. Yr enw ar hyn yw diogelu.

Ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau plentyndod hapus gyda'u teuluoedd. Fodd bynnag, yn anffodus i rai, nid dyma'r achos bob tro. Mae yna rai plant sy'n fregus – boed hynny oherwydd amgylchiadau personol neu deuluol neu oherwydd eu gallu meddyliol, emosiynol neu gorfforol. Mae ar blant fel hyn angen pawb – ffrindiau, teulu, athrawon a phobl broffesiynol eraill - i'w diogelu a'u cadw rhag niwed.

Fe all y niwed yma gymryd sawl ffurf. Fe all fod yn gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol neu fe allai olygu esgeuluso plentyn neu gymryd mantais arno.

g Manteisio'n Rhywiol ar Blentyn

Mae manteisio'n rhywiol ar blentyn yn fath penodol o gamdriniaeth ac fe all ddigwydd i unrhyw blentyn neu berson ifanc. Mae'n digwydd pan gaiff person ifanc ei annog, neu ei orfodi, i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol yn gyfnewid am bethau fel anrhegion, arian, alcohol, neu rywbeth mor syml â sylw emosiynol.

g Sut mae'n digwydd?

Fe all hi fod yn anodd adnabod manteisio rhywiol achos yn aml mae'n teimlo fel bod gennych chi berthynas dda gyda'r person – neu'r bobl – sy'n cymryd mantais ar y berthynas dda sydd rhyngoch chi.

Yn aml mae pobl sy'n manteisio arnoch chi yn glên efo chi; hwyrach eu bod nhw'n prynu pethau i chi, yn gwrandao ar eich problemau, yn mynd â chi i lefydd anhygoel neu'r rhoi lle i chi aros pan mae bywyd yn anodd.

Mae unrhyw un sy'n eich perswadio chi i gael rhyw efo nhw neu efo person arall, neu sy'n eich annog i bostio lluniau rhywiol ohonoch chi eich hun dros y we neu drwy neges destun yn gyfnewid am y pethau maen nhw wedi eu rhoi i chi, yn manteisio'n rhywiol arnoch chi – hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo eu bod nhw'n gwneud hynny bob tro.

Os ydy'r hyn mae rhywun yn gofyn i chi, neu yn eich gorfodi chi, i'w wneud yn achosi i chi boeni neu deimlo'n anghyffyrddus, neu os yw e rywsut yn teimlo'n anghywir, yna cofiwch ei fod e fwy na thebyg yn anghywir.

g Lle allwch chi gael help?

Os ydych chi'n berson ifanc sy'n poeni am unrhyw sefyllfa rydych chi neu ffrind ynddi, siaradwch efo oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw mor fuan â phosib.

Mae help a chyngor pellach ar gael ynglŷn â sut i ddiogelu'ch hun rhag pobl sydd eisiau manteisio rhywiol arnoch chi.
Ewch i www.itsnotokay.co.uk

Taf

g

Pwy i gysylltu â nhw?

Os ydych chi'n oedolyn sydd wedi dioddef camdriniaeth, sy'n dal i gael eich cam-drin neu'n amau bod rhywun arall yn cael eu cam-drin, cysylltwch â'ch Tîm Diogelu Lleol ar **01685 724539** (Dydd Llun – Dydd Iau 8.30yb - 5.00yh, Dydd Gwener 8.30yb - 4.30yh).

Os ydych chi'n poeni fod plentyn neu berson ifanc mewn peryg, cysylltwch â'ch Tîm Diogelu Lleol ar **01685 725000** (Dydd Llun – Dydd Iau 8.30yb - 5.00yh, Dydd Gwener 8.30yb - 4.30yh).

I gysylltu â'r Gwasanaethau Plant neu Oedolion y tu allan i oriau swyddfa, ar benwythnosau ac ar wyliau banc ffoniwch dim Dyletswydd Argyfwng Cwm Taf ar **01443 743665**.

Os ydych chi'n amau fod oedolyn, plentyn neu berson ifanc mewn peryg dybryd o gael eu cam-drin ffoniwch 999 a siaradwch efo'r Heddlu.

Os hoffech chi gysylltu ynglŷn â digwyddiad nad yw'n argyfwng, neu os oes gennych chi broblem neu ymholiad cyffredinol ffoniwch 101, rhif 24 awr yr heddlu ar gyfer achosion nad ydyn nhw'n argyfwng.

Lleisiwch eich barn a helpwch i wneud gwahaniaeth...

Oes diddordeb gennych mewn gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol? Os felly, pam na wnewch chi ddod yn Aelod Cyfetholedig o un o bwyllgorau craffu'r Cyngor?

Dylai preswylwyr lleol neu bobl sy'n gweithio yn y Fwrdeistref Sirol sy'n dymuno cyfrannu at rai o'r penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar yr ardal ymgeisio am un o'r swyddi gwag.

Fel aelod cyfetholedig o bwyllgor craffu byddwch yn gweithio ar un o bum Pwyllgor Craffu'r Cyngor gyda Chynghorwyr etholedig o'r holl bleidiau ac aelodau cyfetholedig eraill. Byddwch yn defnyddio'ch sgiliau a'ch gwybodaeth am y materion ac am wasanaethau yn y Fwrdeistref Sirol i gyfrannu at y trafod a'r cyd-drafod.

Mae rôl y pwyllgorau craffu'n cynnwys adolygu penderfyniadau a wnaed a chatau a gymerwyd o ran polisiau, cynlluniau a chyllidebau a chynnig argymhellion i newid a gwella lle bo angen.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan y Cyngor yn yr adran "Pwyllgorau Craffu". Gallwch ddysgu rhagor am ba bwyllgorau sydd â swyddi gwag, lawrlwytho ffurflen gais a dysgu rhagor am Graffu'n gyffredinol trwy fynd i www.merthyr.gov.uk a chwilio am "pwyllgorau craffu". Fel arall, ffoniwch yr Adran Graffu ar 01685 725464 am ragor o wybodaeth.

Nid oes cyflog na lwfans ar gyfer y rôl ond bydd costau teithio rhesymol yn cael eu had-dalu.

*Y dyddiad
cau ar gyfer
ceisiadau yw
19 Tachwedd
2015.*



Cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel – helpu i amddiffyn ein cymunedau

Cerdyn Cadw Cymru'n Ddiogel a lansiwyd ar y cyd â Heddlu De Cymru, Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Mencap Cymru.

Gall y cerdyn helpu unrhyw un yn ardal Heddlu De Cymru ag anabledd, dementia, salwch meddwl neu angen cyfathrebu.

Dyluniwyd y cynllun i godi ymwybyddiaeth pobl o'u diogelwch personol, annog pobl i adrodd ar droseddau – yn arbennig troseddau casineb – a gofyn am gymorth os oes angen.

Pan fo unigolyn yn cofrestru am gerdyn cadw'n ddiogel, byddan nhw hefyd yn cael mynediad at Linell Anabledd yr Heddlu. Mae hwn yn rhif ffôn pwrpasol y gall pobl ag anabledd ei defnyddio i gysylltu â'r heddlu pan nad yw'n argyfwng. Trwy ffonio'r rhif hwn, bydd yr un sy'n ateb yr alwad yn ymwybodol eu bod yn siarad â rhywun ag anabledd cyn dechrau siarad.

Mae'r cardiau hyn a all achub bywydau yn galluogi pobl sy'n agored i niwed i gael cymorth pan fyddan nhw'n teimlo'n sâl neu'n anniogel.

Dyluniwyd y cardiau 'Cadw'n Ddiogel' yn wreiddiol i bobl ag anawsterau dysgu ond gellir eu defnyddio'n ehangach.

Mae'r cardiau am ddim yn galluogi pobl i restru enw, manylion cyswllt mewn argyfwng, yn ogystal â gwybodaeth am iechyd a gwybodaeth bwysig arall amdanyn nhw eu hunain i sicrhau'u bod yn cael y cymorth priodol os ydyn nhw'n sâl neu'n teimlo'n anniogel. Yn ogystal, gall pobl sy'n defnyddio'r cerdyn gofrestru'u manylion â'n Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus

a byddan nhw'n cael cerdyn ag arno gyfeirnod. Os bydd angen iddyn nhw ffonio 101 i adrodd ar drosedd, neu ofyn am gymorth yr heddlu, maen nhw'n dyfynnu'r cyfeirnod hwn a bydd holl fanylion a gofrestrwyd am yr unigolyn ar gael i'r Gweithredwr Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys ffurflen gais, ar gael trwy fynd i wefan Heddlu De Cymru ar www.south-wales.police.uk

*Dyluniwyd y
cynllun i godi
ymwybyddiaeth
pobl o'u
diogelwch
personol...*

Cwrdd â'ch swyddogion lleol

Bydd eich swyddogion heddlu lleol yn y dderbynfa yn y Ganolfan Ddinesig o 12yp i 2yp, dydd Llun i ddydd Gwener.

Dewch i siarad â nhw i nodi materion am eich ardal leol ac am gyngor ar atal troseddu.

Newidiadau i sesiynau nofio am ddim i blant

O Hanner Tymor yr Hydref bydd y ddarpariaeth nofio am ddim yn newid ym Merthyr Tudful.

Mae canllawiau newydd a ddosbarthwyd i Chwaraeon Cymru gan Ddirprwy Weinidog Diwylliant. Chwaraeon a Thwristiaeth yn golygu y bydd sesiynau nofio 'Sblasio' am ddim i ieuenctid yn lleihau a bydd y ffocws yn symud i gynyddu cyfraddau 'Dysgu i Nofio' a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn nofio.

Merthyr Tudful ar hyn o bryd yw'r unig awdurdod yng Nghymru sy'n cynnig nofio am ddim trwy'r dydd pob dydd yn ystod gwyliau ysgol (cyfanswm o 116.5 awr yr wythnos) yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful a Chanolfan Gymunedol

Aberfan a Chwm Merthyr, gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau eraill yn cynnig yr isafswm o 7 awr y pwll, yr wythnos.

Rhaid i Ferthyr Tudful bellach gydymffurfio 'r awdurdodau eraill yng Nghymru, gan olygu y bydd yr oriau'n gostwng yn raddol o Hanner Tymor yr Hydref 2015 i Hanner Tymor y Pasg 2016.

Bydd y sesiynau Nofio Am Ddim yn Hanner Tymor yr Hydref 2015 fel a ganlyn:

Merthyr Tydfil Leisure Centre				Aberfan & Merthyr Vale Community Centre			
Day	Start	End	Total Hours	Day	Start	End	Total Hours
Llun	09:00	20:00	11	Llun	11.45	17:30	5.75
Mawrth	09:00	20:00	11	Mawrth	11.45	17:30	5.75
Mercher	09:00	20:00	11	Mercher	11.45	17:30	5.75
Iau	09:00	20:00	11	Iau	11.45	17:30	5.75
Gwener	09:00	20:00	11	Gwener	12:00	17:30	5.5
Sadwrn	09:00	12:30	3.5	Sadwrn	09:00	11:30	2.5
Sul	09:00	12:30	3.5	Sul	09:00	11:30	2.5
Cyf:			62.00	Cyf:			33.50
				Cyfanswm i Gyd:			95.50

Bydd gostyngiad pellach i 86 awr yr wythnos dros wyliau'r Nadolig, 76 awr yr wythnos yn Hanner Tymor Chwefror a 50 awr yr wythnos ar gyfer Gwyliau'r Pasg.

Bydd y gostyngiad llawn i 14 awr yr wythnos yn weithredol o Sulgwyn 2016 yn y ddwy ganolfan.

Yn y cyfamser bydd CBSMT, ynghyd â phartneriaid, yn datblygu cynllun ar gyfer 2016/17 i ymgysylltu â phlant 16 ac iau, gan ganolbwyntio ar:

- Y rheini sy'n methu â chyflawni'r prawf 'Dysgu i Nofio' rhagnodol erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2
- Y rheini sy'n byw mewn ardaloedd difreintedd uchel
- Y rheini o gymunedau modur
- Pobl ifanc ag anableddau

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Rheolwr Datblygu Hamdden, Diwylliant a Chwaraeon ar (01685) 727356.

Ydych chi erioed wedi meddwl sut mae'ch Treth Cyngor yn cael ei gwario?

Mae pobl yn aml yn gofyn hyn!

Felly rydym ni wedi creu'r graff isod i ddangos y gwariant y bunt.

- Addysg 35.68p
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion 15.37p
- Cynnal Tiroedd 1.06p
- Priffyrdd a Pheirianneg 1.94p
- Gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol 2.23p
- Trwyddedu 0.04p
- Cofrestryddion 0.07p
- Costau Cyllid Cyfalaf 7.12p
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Democratig 1.17p
- Gwasanaethau Cynnal 5.29p
- Heddlu 3.03p
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Atal ac Ymyrraeth Gynnar 1.72p
- Gwasanaethau Profedigaeth 0.08p
- Casglu Sbwriel 2.92p
- Adfywio Cymunedol 0.62p
- Safonau Masnach 0.24p
- Gwasanaethau Tai 0.35p
- Peace of Mind (LifeLine) 0.01p
- Ardollau 2.57p
- Eiddo Corfforaethol 1.51p
- Gwasanaeth Tân 2.33p

- Cludiant Ysgol 2.07p
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant 9.19p
- Glanhau Strydoedd 0.74p
- Rheoli Fflyd 0.68p
- Cynllunio a Rheoli Adeiladu 0.54p
- Iechyd y Cyhoedd 0.47p
- CCTV 0.09p
- Taliadau Budd-daliadau Treth Cyngor 5.53p
- Cynllunio Argyfyngau 0.08p
- Costau Corfforaethol 0.62p

Band Treth Cyngor	Treth Cyngor Flynyddol
A	901.81
B	1052.12
C	1202.42
D	1352.72
E	1653.32
F	1953.93
G	2254.53
H	2705.44
I	3156.35

